OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif 846 (Cy. 206) (C. 71)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 4) 2017

*Gwnaed - - - - 17 Awst 2017*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 188(1) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 4) 2017.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Deddf 2014" ("*the 2014 Act*") yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**2**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

### Y diwrnod penodedig

**2.** Y diwrnod penodedig i'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf ddod i rym yw 4 Medi 2017—

(a) adran 56(1) i'r graddau y mae'n mewnosod adran 144A yn Neddf 2014;

(b) adran 56(2) (sy'n diwygio adran 196(6) o Ddeddf 2014).

*Rebecca Evans*
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, un o Weinidogion Cymru

17 Awst 2017

(**1**) 2016 dccc 2.
(**2**) 2014 dccc 4.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Hwn yw'r pedwerydd Gorchymyn Cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf"). Mae'n cychwyn adran 56(1) o'r Ddeddf, i'r graddau y mae'n mewnosod adran 144A yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"), ac adran 56(2) o'r Ddeddf (sy'n diwygio adran 196(6) o Ddeddf 2014). Y dyddiad cychwyn yw 4 Medi 2017.

Mae adran 144A o Ddeddf 2014 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag adroddiadau blynyddol gan awdurdodau lleol ynghylch arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys darpariaeth mewn perthynas â chynnwys a ffurf yr adroddiadau hynny.

Mae adran 56(2) o'r Ddeddf yn diwygio adran 196(6) o Ddeddf 2014 fel bod y rheoliadau cyntaf a wneir o dan adran 144A(2)(b) o Ddeddf 2014 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Gall rheoliadau o dan adran 144A(2)(b) ragnodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn adroddiadau blynyddol awdurdodau lleol.

## NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym drwy Orchymyn Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 185 ac Atodlen 3 (yn rhannol) | 6 Ebrill 2016 | 2016/467 (Cy. 149) (C. 28) |
| Adran 67 (yn rhannol) | 11 Gorffennaf 2016 | 2016/713 (Cy. 191) (C. 51) |
| Adran 68 (yn rhannol) | 11 Gorffennaf 2016 | 2016/713 (Cy. 191) (C. 51) |
| Adran 73(1) a (2) (yn rhannol) | 11 Gorffennaf 2016 | 2016/713 (Cy. 191) (C. 51) |
| Adran 75 (yn rhannol) | 11 Gorffennaf 2016 | 2016/713 (Cy. 191) (C. 51) |
| Rhan 2 | 3 Ebrill 2017 | 2017/309 (Cy. 80) (C. 29) |
| Rhan 3 ac Atodlen 2 i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym | 3 Ebrill 2017 | 2017/309 (Cy. 80) (C. 29) |
| Rhan 4 | 3 Ebrill 2017 | 2017/309 (Cy. 80) (C. 29) |
| Rhan 5 | 3 Ebrill 2017 | 2017/309 (Cy. 80) (C. 29) |
| Rhan 6 | 3 Ebrill 2017 | 2017/309 (Cy. 80) (C. 29) |
| Rhan 7 | 3 Ebrill 2017 | 2017/309 (Cy. 80) (C. 29) |
| Rhan 8 | 3 Ebrill 2017 | 2017/309 (Cy. 80) (C. 29) |
| Rhan 9 | 3 Ebrill 2017 | 2017/309 (Cy. 80) (C. 29) |

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Rhan 10 | 3 Ebrill 2017 | 2017/309 (Cy. 80) (C. 29) |
| Adran 185 ac Atodlen 3 i'r graddau y maent yn ymwneud â Rhan 2 o Atodlen 3 | 3 Ebrill 2017 | 2017/309 (Cy. 80) (C. 29) |

Gweler hefyd adran 188(2) o'r Ddeddf am ddarpariaethau a ddaeth i rym ar 19 Ionawr 2016 (y diwrnod ar ôl dyddiad y Cydsyniad Brenhinol).